Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Beth ddylai fod yn eich pecyn llifogydd?

Pa eitemau sy'n hanfodol, defnyddiol a ddim mor ddefnyddiol i gadw mewn Pecyn Llifogydd os fydd rhaid gadael mewn argyfwng i ganolfan gorffwys?

## BETH I'W GYNNWYS YN Y PECYN LLIFOGYDD:

### EITEMAU HANFODOL:

- **Copïau o ddogfennau pwysig**
  E.e. pasbortau, tystysgrif yswiriant cartref, trwydded yrru.
- **Arian brys/cardiau credyd**
- **Meddyginiaeth bresgripsiwn**
- **Pethau hanfodol ar gyfer plant**
  E.e. llaeth a photeli wedi'u sterileiddio, bwyd babanod, cewynnau, hancesi gwlyb, dillad, ag ati.
- **Cynllun Llifogydd Personol**
  Mae'n ddefnyddiol fod manylion cyswllt pwysig wedi'u cynnwys yn un o'r dogfennau e.e. llinell gymorth hawliadau yswiriant , gwasanaethau brys a'r cyngor, teulu a ffrindiau.
- **Pecyn cymorth cyntaf**
  Os fydd yna anafiadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r unigolyn wedi dod i gysylltiad â llifogydd.  Atgyfnerthu'r neges honno fod y llifddwr yn beryglus.
- **Potel ddŵr**
  Efallai y bydd tarfu ar wasanaethau / cyfleustodau a gall fod dŵr yfed wedi'i difwyno gan lifddwr.

### EITEMAU DEFNYDDIOL:

- **Ffôn symudol a gwefrydd**
  Efallai bydd yna darfu ar wasanaethau/ cyfleustodau a llinellau ffôn i lawr. Efallai y bydd hi'n bosibl gwefryddio eich ffôn  yn y ganolfan argyfwng.
- **Tors a batris neu tors weindio**
  Bydd trydan yn cael ei ddiffodd yn ystod llifogydd oherwydd mae cyfuno trydan a dŵr yn beryglus. Gall hyn olygu bod gwelededd yn gyfyngedig.
- **Radio a batris neu radio weindio**
  I gael y newyddion diweddaraf ynglŷn â'r llifogydd.
- **Camera**
  I gofnodi'r difrod at ddibenion yswiriant. Mae'n ddefnyddiol cael lluniau o'ch eiddo cyn y llifogydd i'w ddefnyddio fel cymhariaeth.
- **Tuniau (a pheth agor tuniau) neu eitemau bwyd sydd ddim yn ddarfodus**
  E.e. barrau grawnfwyd neu ynni. Efallai y bydd eiddo preswyl a masnachol eraill hefyd wedi cael eu heffeithio gan lifogydd a gall fod siopau wedi cau.  Hefyd cofiwch os oes gennych anifail anwes i gynnwys bwyd anifeiliaid anwes.
- **Blancedi a dillad cynnes/sy'n dal dŵr.**
- **Offer golchi sy'n cynnwys eitemau hanfodol.**
  E.e. papur toiled, sebon, hancesi gwlyb.

### EITEMAU SYDD DDIM MOR DDEFNYDDIOL:

- **Rhwymynnau breichiau**
  Ni ddylid mynd mewn i'r llifddwr gan gall fod yn beryglus, felly nid oes angen rhwymynnau breichiau.
- **Teganau**
  Gall plant ystyried teganau yn bwysig ond nid ydynt yn hanfodol neu'n ddefnyddiol yn ystod llifogydd.
- **Eitemau trydanol cyffredinol**
  Dylai trydan gael ei ddiffodd yn ystod llifogydd oherwydd mae cyfuno trydan a dŵr yn beryglus. Efallai fydd yna drydan yn y ganolfan  orffwys ond gyda chymaint o bobl mewn un adeilad mae'n annhebygol y gellid defnyddio y rhan fwyaf o eitemau trydanol.

Fformat arall; print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk      0300 065 3000

**Ebost:** addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government